# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 5 Gorffennaf 2023

Amser: 09.17 - 12.27

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/13392) yn:

http://senedd.tv/cy/13392

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>James Evans AS<br>Heledd Fychan AS<br>Laura Anne Jones AS<br>Ken Skates AS<br>Buffy Williams AS |
| Tystion: | Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi<br>Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg<br>James Owen, Llywodraeth Cymru<br>Jo Salway, Llywodraeth Cymru<br>Abigail Philips, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Catherine McKeag (Swyddog)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol) |

| | |
|---|---|
| | Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Claire Thomas (Ymchwilydd)<br>Sarah Hatherley (Ymchwilydd)<br>Sian Hughes (Ymchwilydd)<br>Lucy Morgan (Ymchwilydd)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd)<br>Philippa Watkins (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

1.3 Croesawodd y Llywydd Heledd Fychan AS i'r Pwyllgor Busnes a diolchodd i Sioned Williams am ei chyfraniad gwerthfawr at waith y Pwyllgor dros y ddwy flynedd diwethaf.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitem 4, eitem 7 ac eitem 9 ar agenda'r cyfarfod hwn.

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

4.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith. Cytunodd yr aelodau ar y canlynol:

- ysgrifennu at y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidogion perthnasol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y Dull Ysgol Gyfan o ymdrin ag Iechyd Meddwl a'r gwaith dilynol ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

-  yn amodol ar y wybodaeth yn yr ohebiaeth a geir gan y  Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, ymateb gan ofyn am ragor o wybodaeth am y ddarpariaeth ar gyfer unedau  mamau a babanod yng Nghymru.

- ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch y defnydd o e-sigaréts ymhlith plant a phobl ifanc.

- trafod cwmpas y gwaith cysylltiedig ag ymchwiliad i droseddoli plant a phobl ifanc

## 5 Trafod y dull gweithredu o ran sesiwn cynllunio strategol y Pwyllgor

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y modd y byddai'n ymdrin â'r sesiwn cynllunio strategol nesaf a gaiff ei chynnal ar 14 Medi.

## 6 Gweithredu diwygiadau addysg - ystyried canlyniad y broses gysylltu yn yr haf 2023

6.1 Trafododd y Pwyllgor y sesiwn ddiweddaraf a gynhaliwyd fis Ebrill/Mai.

6.2 Cytunodd yr Aelodau ar y llythyr drafft at Weinidog y Gymraeg ac Addysg.

## 7 Diweddariad ar weithgareddau'r Pwyllgor

7.1 Rhoddodd yr Aelodau'r wybodaeth lafar ddiweddaraf a gafwyd am waith y Pwyllgor yn ystod y tymor.

7.2 Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cyfarfodydd a ganlyn a gynhaliwyd:

- Cyfarfodydd gweinidogol bob deufis

- Digwyddiad CLASS Cymru

- Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol Aberhonddu ac Abertawe

- Cymdeithas Contractwyr Peirianneg Sifil

- Y Dirprwy Weinidog - Deddfwriaeth Amgylchedd Bwyd Iach

- Tîm EYST

- Cynghrair Gordewdra Cymru

- Fforwm y Cadeiryddion

7.3 Clywodd y Pwyllgor am yr ymweliadau ag ysgolion a gynhaliwyd yn ddiweddar fel rhan o'i ymchwiliad, sef 'A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?'

## 8 Sesiwn graffu ar y cyd gyda Gweinidogion ar addysg a sgiliau ôl-16

8.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a gwaith Gweinidog yr Economi.

8.2 Cytunodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i roi ystadegau i'r Pwyllgor ar lefel y cysylltiad rhwng Gyrfa Cymru a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

8.3 Cytunodd Gweinidog yr Economi i baratoi nodyn ar gyfer y Pwyllgor ar ehangu gradd-brentisiaethau.

## 9 Sesiwn graffu ar y cyd gyda Gweinidogion - trafod y dystiolaeth

9.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywodd yn ystod y sesiwn dystiolaeth flaenorol.